Amser Hanesyddol i addysg Dinbych-y-pysgod

Mae dwy ysgol newydd yn agor eu drysau am y tro cyntaf yn Ninbych-y-pysgod yr wythnos nesaf.

Un yw Ysgol Gynradd Saesneg WG Dinbych-y-pysgod yr Eglwys yng Nghymru a'r llall yw Ysgol Gymraeg Hafan y Môr.

Maent yn disodli Ysgol Fabanod WG Dinbych-y-pysgod ac Ysgol Iau Dinbych-y-pysgod a byddant yn darparu ar gyfer plant rhwng oed 3 ac 11 oed.

Mae'r ddwy ysgol newydd yn cynrychioli buddsoddi £8.37 miliwn mewn addysg yn y dref ac fe'u codwyd dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - cydweithrediad rhwng Cyngor Sir Penfro a Llywodraeth Cymru sy'n rhannu'r cyllid.

Meddai Huw George, Aelod Cabinet y Cyngor dros y Gymraeg: "Mae hwn yn adeg hanesyddol i addysg gynradd yn Ninbych-y-pysgod ac yn enwedig i'r Gymraeg yn Sir Benfro. Ein dymuniadau gorau at y dyfodol i'r ddwy fenter."

Mae ysgol Dinbych-y-pysgod yr Eglwys yng Nghymru'n adeilad newydd a ddyluniwyd yn fewnol gan dîm penseiri'r Cyngor Sir ei hun. Bydd 54 o ddisgyblion meithrin yno a 252 o ddisgyblion rheng Derbyn a Blwyddyn 6.



Mae nodweddion ecolegol yr ysgol wedi arwain at ddyfarniad rhagorol dan ddull achredu amgylcheddol BREEAM, ac mae'n cael ei phŵer o nifer sylweddol o baneli ffotofoltaidd y gall y plant eu gweld o'u hystafelloedd dosbarth.

Y pennaeth yw Mr John Palmer.

Ysgol Hafan y Môr yw'r gyntaf o'i bath yn Ne Sir Benfro ac fe'i sefydlwyd mewn ymateb i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg yn y cylch.

Wedi'i lleoli yn yr ysgol iau flaenorol a adnewyddwyd yn helaeth, bydd yno 32 o ddisgyblion meithrin a 94 o blant rhwng Derbyn a Blwyddyn 6.

Penodwyd Mrs Victoria Hart-Griffiths yn bennaeth arni.

Y mae'r ddwy ysgol yn cynnal cip ymlaen llaw o'u cyfleusterau ar gyfer rhieni a disgyblion ar brynhawn dydd Mawrth, 6ed Medi - y diwrnod cyn iddynt agor.

Geiriad
Logos y ddwy ysgol newydd.

